

Cofion a Chyfarchion

- Mae John H. Williams (Llanefydd) yn dal i fod yn yr Inffirmari, a ninnau yn dal i gofio amdano yn ein gweddïau ac yn hyderu ei fod yn adnabod holl dangnefedd Duw yn gwarchod drosto.
- Llongyfarchiadau mawr i Iwan a Menna Jones (Groes) ar enedigaeth merch, Mared Gwenllian, chwaer fach i Gruffydd a Gethin. Dymunwn fendith Duw arnynt fel teulu a diolchwn gyda hwy am Ei ddaioni.

Derbyn yn Aelodau

Os ceir ymateb, mae bwriad i gychwyn sesiynau paratoi ym mis Medi ar gyfer ieuencid 15+ sydd â diddordeb i ddod i gyflwyniad syml i Gristnogaeth ac, os byddan nhw'n awyddus, i gael eu derbyn yn aelodau yn eu heglwys leol wedi hynny. Felly, os oes diddordeb, cysylltwch â Rhodri, Gwion neu Mair cyn diwedd mis Gorffennaf, os gwelwch yn dda.

I ddod

- **TAITH GERDDED HAMDDENOL I'R OFALAETH** nos Fercher, Mehefin 28ain yn ardal Henllan. Mwy o fanylion i ddilyn. Croeso i bawb.
- **CWRDD CHWARTER CYFUNDEB GORLEWIN DINBYCH A FFLINT** yn cyfarfod nos Iau, Mehefin 29ain am 7.00 yng Nghapel Bethel, Yr Wyddgrug. Yn dilyn y cyflwyniad a gafwyd yn y Cwrdd Chwarter diwethaf o Arolwg yr Undeb o sefyllfa y Cyfundebau, bydd trafodaeth ymhellach ar ein sefyllfa fel y medrwn gadarnhau a chryfhau ein gwaith, a darganfod y ffordd orau i'r Cyfundeb fedru symud ymlaen.
- **HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** yn cyfarfod **yng Nghapel Clwyd Street, Y Rhyl. (sylwch ar y newid lleoliad)** dydd Sadwrn, Gorffennaf 1af. Bydd y Pwyllgor Gwaith am 3.00, oedfa gyhoeddus am 4.30 i longyfarch blaenoriaid am hir wasanaeth, ac eisteddiad yr Henaduriaeth am 5.30 yr hwyr.
- **ASTUDIAETH FEIBLAIDD I'R FRO** yn Llanefydd nos Iau, Gorffennaf 6ed am 7.30.
- **DATHLU 150 MLYNEDD ERS SEFYDLU CAPEL LLANEFYDD A 10 MLYNEDD ERS ADDASU'R ADEILAD** – Oedfa Deuluol bore Sul, Gorffennaf 9fed am 10.30 o dan arweiniad y Parch. Ddr Rhodri Glyn. Cinio'r dathlu yn dilyn yn y neuadd. Os oes gennych luniau neu atgofion, a fyddech gystal â'u rhannu efo un o'r blaenoriaid erbyn Gorffennaf 1af os gwelwch yn dda?
- **RHAI O GYRSIAU HAF COLEG Y BALA:**
 - ⇒ **Cwrs Ieuencid (i flynyddoedd 7 – 10):** Gorffennaf 31-Awst 4
 - ⇒ **Anhrefn Awst (i blant 8-12 oed):** Awst 14-17
 - ⇒ **Souled Out (15+):** Awst 19-24

Cofiwch bod £20 o ostyngiad i bob unigolyn mewn addysg sydd am fynd ar un o'r cyrsiau, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled. Cofiwch bod angen llenwi ffurflen i archebu lle, a'i hanfon ynghyd â blaendâl o £10 i Goleg y Bala mor fuan ag sydd bosibl.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 18^{fed} Mehefin 2017

Darlleniad y Dydd

Datguddiad 21:1-6

(BCND tud.285 / BCN tud.261)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

'O Arglwydd, ein lôr, mor ardderchog yw dy enw ar yr holl ddaear!' Dyna'r geiriau sydd i'w clywed ar ddechrau Salm 8, ac wrth i ni ymuno â'n gilydd i roi clod i Dduw, gofynnwn am gymorth yr Ysbryd i sylweddoli hynny drosom ein hunain.

Yn Oedfa'r Fro heno byddwn yn cael cwmni'r Parchedig Euros Wyn Jones, Llangefni a byddwn hefyd yn cael cyfle i ofyn bendith Duw ar Sarah Dafydd cyn iddi gychwyn ar daith i Affrica ddiwedd yr wythnos. Fel y gwyddoch, buom fel gofalaeth yn casglu arian at argyfwng Ethiopia ar ddechrau'r flwyddyn, ond mae elusen *Tearfund* wedi ymrwymo i waith tymor hir yn y wlad hefyd. Bydd Sarah yn ymweld ag Ethiopia fel rhan o dîm *Tearfund* er mwyn tystio i'r cynlluniau gwerthfawr sy'n cael eu gweithredu yno er mwyn helpu merched i fynd i'r afael â thlodi. Dymunwn daith fendithiol a bythgofiadwy i Sarah, ac edrychwn ymlaen at gael clywed yr hanes ganddi am waith Duw yn y rhan arbennig hon o'i greadigaeth!

I'r rhai ohonoch sy'n cofio rhaglenni teledu'r 1980au, roedd yr *A-Team* yn rhaglen hynod o boblogaidd. O bennod i bennod byddai'r criw yn wynebu anturiaethau cyffrous, ac yn aml tua diwedd y rhaglen byddai arweinydd yr *A-Team*, Hannibal Smith yn yngan y geiriau cofiadwy: '*I love it when a plan comes together!*' Mewn termau Beiblaidd dyna'r ydym ni'n ei weld yn ein darlleniad ar y cyd o lyfr olaf y Beibl. Gall Llyfr y Datguddiad ymddangos yn ddigon rhyfedd i ni gan ei fod yn llawn delweddau dramatig a dieithr, ond cofiwn mai un o'i nodweddion yw'r cyfoeth o gyfeiriadau ac adleisiau o'r Hen Destament sy'n cael ei gynnwys ynddo, ac mae hynny'n wir am ein darlleniad heddiw. Yn Datguddiad 21 cawn gip ar addewidion bendigedig yr Arglwydd yn cael eu gwireddu mewn disgrifiadau godidog. Duw yn byw yng nghanol ei bobl a holl effeithiau pechod wedi darfod. Allwn ni ddychmygu'r fath sefyllfa? Ddim yn hawdd iawn oherwydd bod marwolaeth, poen a thristwch mor gyfarwydd trwy gydol ein bywydau. Ond sylwch beth yw'r weledigaeth – Duw yn sychu dagrau, dim marwolaeth (mae Iesu wedi concro'r bedd trwy ei farwolaeth a'i atgyfodiad), a galar, wylo a phoen wedi diflannu am byth. Wrth i ni barhau i weld y lluniau brawychus o'r tân dinistriol yn Llundain, dylai'r geiriau hyn gadarnhau mor dyngedfennol yw gwaith achubol Iesu. Pan ydym yn dod i gredu yng Nghrist rydym yn profi o'r dŵr bywiol sy'n gwneud gwahaniaeth aruthrol rwan, ac ymlaen i dragwyddoldeb (Ioan 4:10-14). Ac felly, wrth wynebu amgylchiadau anodd, dylai'r Cristion gofio fod mwy i'n bywydau na'r hyn yr ydym yn ei brofi ar hyn o bryd. Dylem ymdrechu i beidio 'gollwng gafael yn y gobaith sicr mae'r newyddion da yn ei gynnig' (Colosiaid 1:23), ond yn hytrach annog ein hunain a'n gilydd i bwysu ar yr addewid y bydd Duw yn gwneud pob peth yn newydd (Datguddiad 21:5).

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 18^{fed} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwawr Davies, a bydd y Parch. Euros Wyn Jones yn pregethu.
- Mawrth – 20^{fed} ➤ **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Mercher – 21^{ain} ➤ **“Clywsoch fel y dywedwyd”...sori, be?** – sesiwn ymarferol yn Llanefydd am 7.30 yng nghwmni y Parch. Hywel Edwards i'n helpu i glywed Gair Duw yn gliriach, yn cynnwys creu map i ganfod ein ffordd drwy'r Beibl.
- Gwener – 23^{ain} ➤ **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Gwen – Sad
23^{ain} – 24^{ain} ➤ **Penwythnos Merched** yn y Bala. Cysylltwch â'r Coleg i gael ffurflen gofrestru: colegybala@ebcpcw.org.uk / 01678 520565.

Sul nesaf – 25^{ain}

Sul y Fro

yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan
yng nghwmni

Steffan Morris

(Cyn-weithiwr Plant, Ieuenctid a Theuluoedd Henaduriaeth Conwy a Dyfrdwy, sydd bellach yn fyfyrwr ar Raglen Genhadol Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac wedi cychwyn gwaith Cristnogol newydd yn ardal Llandysul, Ceredigion.)

Fe wneir casgliad yn ystod y ddwy oedfa tuag at waith y Samariaid.

Parcio: Er diogelwch, gofynnwn i chi beidio parcio o flaen y capel, os gwelwch yn dda, ond bydd digonedd o le parcio naill ai ym maes parcio'r capel, ym maes parcio'r Ganolfan neu ar ochr y ffordd yn arwain at y Ganolfan.

Cadair Olwyn: Os dymunwch ddefnyddio'r gadair olwyn sydd yn y capel, rhoch wybod i un o'r rhai fydd yn y cyntedd yn eich croesawu.

I-Grist am 10:30

Oedfa'r bore

i deuluoedd holl eglwysi'r Ofalaeth.
Yn dilyn yr oedfa, byddwn yn mynd i'r Brenig i gael picnic ac i gymdeithasu, tra bydd cyfle i'r plant fwynhau y maes antur sydd newydd agor yno.

(Os na fydd y tywydd yn ffafriol, mae trefniadau wedi eu gwneud i fynd i'r Ganolfan yn Llansannan i gael ein picnic, a bydd gemau wedi eu trefnu i'r plant.)

Oedfa o Fawl am 6:00

Oedfa'r hwyr

i holl eglwysi'r Ofalaeth
pryd byddwn yn dathlu tri chan mlwyddiant geni William Williams, Pantycelyn, un o emynwyr mwyaf Cymru, ac yn rhoi sylw arbennig i'w emynau bendigedig.

Croeso i bawb!

Cyhoeddiadau

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 18^{fed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghewn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghewn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 18^{fed} ➤ Bydd y Parch. Euros Wyn Jones yn arwain oedfa fedydd yn Llansannan am 10.00 pryd y bydd Rhodri a Gwenno Glyn yn cyflwyno Llio i gael ei bedyddio. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg a chynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10. Yna, yn y prynhawn, bydd rhai o'r aelodau yn mynd i'r Hen Ficerdy, Pandy Tudur i gynnal gwasanaeth.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.
- Mercher – 21^{ain} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) HEDDIW, os gwelwch yn dda.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 18^{fed} ➤ Bydd y Parch. Euros Wyn Jones yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â'r oedfa yn Saron am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 18^{fed} ➤ Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 18^{fed} ➤ Cynhelir Oedfa Deuluol i'r daith dan arweiniad Gwion yn Llanefydd am 10.00.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎ 01745 582644 📞 07849 591163
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Darlleniad Wythnos Nesaf

Genesis 15:1-6 (BCND tud.12 / BCN tud.11)